Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Iaith Arwyddion Prydain (IAP) (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Awst 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Iaith Arwyddion Prydain (IAP) (Cymru)
## Crynodeb o'r Bil

Awst 2025

**Awdur:**
Gwennan Hardy

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) fel y'i cyflwynwyd.

Mae'r **Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)** ("y Bil") yn **Fil Aelod** a gyflwynwyd gan Mark Isherwood AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Mae dehongliad Iaith Arwyddion Prydain (IAP) o'r Bil **hefyd ar gael.**

Cyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar 14 Gorffennaf 2025, gyda **Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol** yn cyd-fynd ag ef. Ar 16 Gorffennaf, gwnaeth Mark Isherwood AS **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar y Bil.**

# Cynnwys

**1. Y cefndir ........ 1**

Trosolwg o'r Bil ........ 1

Diben a nodau'r Bil ........ 2

Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil ........ 3

**2. Crynodeb o'r darpariaethau ........ 4**

Hybu IAP ........ 4

Strategaeth genedlaethol a chanllawiau ........ 4

Cynlluniau IAP cyrff cyhoeddus rhestredig ........ 4

Cynghorydd i Weinidogion Cymru ........ 5

Adrodd ........ 5

Cyffredinol ........ 6

Atodlen 1 – Y Cynghorydd IAP ........ 6

**3. Costau gweithredu ........ 8**

**4. Gwaith craffu'r Senedd ........ 9**

Cyfnod 1 ........ 9

Cyfnod 2 a'r tu hwnt ........ 9

# 1. Y cefndir

Roedd Mark Isherwood AS yn llwyddiannus yn y balot **Bil Aelod** ym mis Ebrill 2024. Cafodd **ei gynnig ar gyfer Bil Iaith Arwyddion Prydain (IAP) (Cymru)** gydsyniad y Senedd i fwrw ymlaen ar 19 Mehefin 2024.

Cynhaliwyd **ymgynghoriad ar y Bil arfaethedig** rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Ionawr 2025, a chafodd 119 o ymatebion. Cyhoeddwyd **crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** ym mis Mawrth 2025.

Hwylusodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd hefyd raglen ymgysylltu i gasglu profiadau bywyd arwyddwyr IAP a'u teuluoedd ar draws Cymru. Cymerodd 77 o gyfranogwyr ran mewn pedwar cyfweliad a phum grŵp ffocws fel rhan o'r rhaglen hon. Mae adroddiad ar **ganfyddiadau'r rhaglen ymgysylltur** ar gael ar-lein yn IAP neu fel adroddiad ysgrifenedig.

## Trosolwg o'r Bil

Byddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

- hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;
- llunio a chyhoeddi strategaeth IAP genedlaethol, ac adolygu hyn o leiaf bob 6 blynedd;
- dyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus rhestredig ar sut i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP;
- penodi cynghorydd IAP a phanel i'w gynorthwyo;
- llunio a chyhoeddi adroddiad o leiaf unwaith bob 3 blynedd ar ôl i'r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi, yn asesu'r cynnydd a wnaed o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun yn nodi sut y maent yn bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth gyflawni eu swyddogaethau, ac i adrodd ar weithredu'r cynllun hwn.

Mae'r Bil yn cynnig y byddai'r dyletswyddau hyn yn cael eu gosod ar y cyrff cyhoeddus a ganlyn:

- awdurdodau lleol;
- byrddau iechyd lleol;
- rhai Ymddiriedolaethau'r GIG (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Felindre ac

Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;

- awdurdodau iechyd arbennig penodol (Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru)

## Diben a nodau'r Bil

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** yn amlinellu tri phrif reswm dros angen y Bil. Y rhain yw:

- cydnabod anghenion ieithyddol cymuned IAP a'i hunaniaeth a'i threftadaeth ddiwylliannol.
- sicrhau bod llunwyr polisi a darparwyr gwasanaethau yn ystyried anghenion ieithyddol arwyddwyr IAP Byddar a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau;
- sicrhau cydraddoldeb deddfwriaethol â Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Mae Senedd y DU a Senedd yr Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth i gefnogi hybu a hwyluso IAP (drwy **Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban) 2015** a **Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022**). Mae Cynulliad Gogledd Iwerddon wrthi'n ystyried y **Bil Iaith Arwyddion**.

Nod y Bil yw sefydlu fframwaith ar gyfer hybu a hwyluso IAP yng Nghymru. Mae'n nodi'r camau y mae rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig eu cymryd i gynllunio sut y byddant yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o IAP, ac i adrodd ar gynnydd. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig yn gyfrifol am benderfynu ar gamau gweithredu penodol i'w cymryd wrth ddatblygu'r strategaeth IAP genedlaethol a chynlluniau IAP lleol.

Yn ystod **datganiad** ar 16 Gorffennaf 2025, disgrifiodd Mark Isherwood AS y Bil fel "deddfwriaeth fframwaith", yn datgan y canlynol:

> Gyda'n gilydd, rhaid inni wneud popeth yn ein gallu i gael gwared ar y rhwystrau sy'n wynebu pobl fyddar, ac er nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r holl rwystrau hynny'n unigol, mae'n darparu fframwaith lle mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a restrwyd... ystyried anghenion arwyddwyr BSL byddar ochr yn ochr â'u dyletswydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o BSL.

Mynegodd Llywodraeth Cymru y farn yn flaenorol y gellid cyflawni nodau'r Bil heb yr angen am ddeddfwriaeth. Gwnaeth Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, y pwynt hwn yn ystod dadl

ar **gynnig yn ceisio cytundeb y Senedd i gyflwyno'r Bil** ar 19 Mehefin 2024.

Yn ystod **y datganiad ar 16 Gorffennaf,** dywedodd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip, fod Llywodraeth Cymru yn croesawu'r Bil. Nododd y bu "cefnogaeth eang" i'r Bil, a nododd y pwysigrwydd bod y ddeddfwriaeth wedi'i hatgyfnerthu drwy drafodaethau â'r **Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar** a grŵp gorchwyl a gorffen rhanddeiliaid IAP a gynullwyd gan Lywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> Rwy'n hyderus y bydd y Bil hwn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar bolisi cenedlaethol a darpariaeth ein gwasanaethau cyhoeddus yn lleol ac y bydd yn darparu'r fframwaith sydd ei angen i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o BSL ledled y wlad.

## Sut i ddefnyddio'r crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Mae mwy o sylwadau ar ddarpariaethau'r Bil yn yr adran Nodiadau Esboniadol o'r **Memorandwm Esboniadol.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn darparu mwy o wybodaeth am ddatblygiad y Bil.

# 2. Crynodeb o'r darpariaethau

Mae gan y Bil, fel y'i cyflwynwyd, 11 o adrannau ac un atodlen.

## Hybu IAP

Mae **adran 1** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu a hwyluso'r defnydd o IAP.

## Strategaeth genedlaethol a chanllawiau

Mae **adran 2** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth genedlaethol yn nodi sut y byddant yn hybu ac yn hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer eu swyddogaethau, a sut y byddant yn annog cyrff cyhoeddus rhestredig i wneud yr un peth. Mae rhaid gosod y strategaeth gerbron y Senedd ac mae rhaid iddi fod ar gael yn IAP.

Mae rhaid cyhoeddi'r strategaeth gyntaf o fewn 18 mis i'r Bil ddod i rym. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth o leiaf unwaith bob 6 blynedd ar ôl hyn. Os ydynt yn penderfynu diwygio'r strategaeth, mae rhaid cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig hefyd.

Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP ac "unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol" cyn cyhoeddi'r strategaeth IAP neu unrhyw fersiwn ddiwygiedig ohoni.

Mae **adran 3 yn ei gwneud yn** ofynnol i Wweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus rhestredig (gweler adran 8 o'r Bil) ynghylch sut y cânt hybu a hwyluso'r defnydd o IAP, a sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael yn IAP.

## Cynlluniau IAP cyrff cyhoeddus rhestredig

Mae **adran 4** yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi cynllun yn nodi sut y mae'n bwriadu hybu a hwyluso'r defnydd o IAP wrth arfer ei swyddogaethau. Mae rhaid i'r cynllun ddisgrifio sut y mae'r corff cyhoeddus yn bwriadu dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, neu pam nad yw'n bwriadu gwneud hynny.

Mae rhaid i gorff cyhoeddus ymgynghori ag unrhyw un y mae'n ystyried ei fod yn briodol cyn cyhoeddi cynllun IAP neu fersiwn ddiwygiedig, ac mae rhaid i'r cynllun fod ar gael yn IAP. Mae rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi eu cynlluniau IAP o fewn

12 mis i'r strategaeth IAP genedlaethol gael ei chyhoeddi, neu gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig.

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnwys gwybodaeth benodol yn eu cynlluniau IAP, ac i gyfarwyddo cyrff cyhoeddus i adolygu eu cynlluniau.

Mae'r cyrff cyhoeddus y byddai'n ofynnol iddynt gyhoeddi cynllun wedi'u rhestru yn adran 8.

## Cynghorydd i Weinidogion Cymru

Mae **adran 5** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi cynghorydd IAP, a bod y person a benodir yn defnyddio IAP ac yn gallu cyfathrebu'n effeithiol ynddi. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi panel i gynorthwyo'r cynghorydd IAP, ac i ymgynghori â'r cynghorydd cyn gwneud penodiadau i'r panel.

Caiff y cynghorydd IAP ddarparu gwybodaeth neu gyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau o dan y Bil. Caiff hefyd ddarparu gwybodaeth neu gyngor i unrhyw un am hybu a hwyluso'r defnydd o IAP yng Nghymru, gyda chytundeb Gweinidogion Cymru.

Caiff y cynghorydd IAP ofyn i gorff cyhoeddus rhestredig ddarparu gwybodaeth iddo a fyddai'n helpu'r cynghorydd i arfer ei swyddogaethau. Mae'n ofynnol i'r corff cyhoeddus gydymffurfio â'r cais, oni bai y byddai gwneud hynny'n gwrthdaro â'i ddyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau. Pan fydd corff cyhoeddus yn penderfynu peidio â chydymffurfio â chais am wybodaeth, mae rhaid iddo esbonio pam i'r cynghorydd IAP yn ysgrifenedig.

## Adrodd

Mae **adran 6** yn ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus rhestredig lunio a chyhoeddi adroddiad yn nodi'r hyn y mae wedi'i wneud i weithredu ei gynllun IAP ac, os nad yw wedi gweithredu rhywbeth, esbonio pam nad yw wedi gwneud hynny. Mae rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi o fewn 12 mis i gyhoeddi cynllun IAP corff cyhoeddus, ac mae rhaid iddo fod ar gael yn IAP.

Mae **adran 7** yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiad yn asesu'r cynnydd a wnaed o ran hybu a hwyluso'r defnydd o IAP o leiaf unwaith bob 3 blynedd ar ôl i'r strategaeth IAP gael ei chyhoeddi gyntaf. Mae rhaid

gosod yr adroddiad gerbron y Senedd ac mae rhaid iddo fod ar gael yn IAP.

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried yn eu bod briodol wrth lunio adroddiad cynnydd. Mae'r adran hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus rhestredig ddarparu gwybodaeth iddynt at ddiben llunio adroddiad cynnydd.

## Cyffredinol

Mae **adran 8** yn pennu'r cyrff cyhoeddus y bydd yn ofynnol iddynt gyhoeddi cynllun IAP, ac adrodd ar ei weithrediad. Y cyrff cyhoeddus rhestredig yw:

- Awdurdodau lleol
- Byrddau iechyd lleol
- Ymddiriedolaethau penodol y GIG (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Felindre ac Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru)
- Awdurdodau iechyd arbennig penodol (Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru).

Mae hefyd yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu sefydliadau at y rhestr (ar yr amod eu bod yn **awdurdod Cymreig datganoledig**), dileu sefydliadau o'r rhestr, neu ddiwygio disgrifiad corff cyhoeddus rhestredig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP a phersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn arfer y pwerau hyn.

Mae **adran 9** yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â'r pwerau i wneud rheoliadau o dan y Bil hwn a gweithdrefn gymwys Senedd Cymru i'w dilyn wrth wneud y rheoliadau hynny.

Mae **adran 10** yn darparu bod y Bil yn dod i rym ddiwrnod ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol.

Mae **adran 11** yn nodi enw byr y Bil.

## Atodlen 1 – Y Cynghorydd IAP

Mae **Atodlen 1** yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi'r cynghorydd IAP, a phenodi aelodau panel i'w gynorthwyo.

Mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddarparu staff, adeiladau, cyfarpar a chyfleusterau eraill i'r cynghorydd IAP sy'n angenrheidiol iddo gyflawni eu swyddogaethau o dan y Bil.

Mae hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru dalu cydnabyddiaeth ariannol, treuliau a lwfansau i'r cynghorydd IAP ac aelodau o'r panel, a thalu pensiynau i'r cynghorydd IAP presennol a chyn-gynghorwyr IAP.

# 3. Costau gweithredu

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol** yn amcangyfrif mai rhwng £3.76 miliwn a £4.14 miliwn yw costau cyffredinol y Bil dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae cyfanswm y gost amcangyfrifedig yn cynnwys tua £1.61 miliwn mewn costau i Lywodraeth Cymru, a rhwng £2.15 miliwn a £2.53 miliwn i'r cyrff cyhoeddus rhestredig.

Mae'r amcangyfrif hwn yn cwmpasu costau gweinyddol cyflawni gofynion y Bil yn unig. Nid yw'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â gweithredu strategaeth IAP genedlaethol na chynlluniau lleol, ac nid yw'n amcangyfrif effeithiau ariannol buddion i'r gymuned Fyddar a allai ddeillio o'r Bil. Y rheswm dros hyn yw y bydd cynnwys y strategaeth IAP genedlaethol a'r cynlluniau lleol yn cael ei benderfynu'n ddiweddarach gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus rhestredig.

# 4. Gwaith craffu'r Senedd

Mae **pedwar cyfnod i waith craffu'r Senedd ar Filiau.**

## Cyfnod 1

Mae'r Bil wedi'i gyfeirio at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, a 5 Rhagfyr 2025 yw'r dyddiad cau i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Bydd y Pwyllgor yn lansio galwad agored am dystiolaeth ar y Bil, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth yn nhymor yr hydref i glywed barn rhanddeiliaid am y Bil cyn cyflwyno adroddiad i'r Senedd.

Mae rhagor o wybodaeth am waith craffu Cyfnod 1 ar gael ar **dudalen we'r Bil.**

## Cyfnod 2 a'r tu hwnt

Os bydd y Senedd yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil, bydd yn destun gwelliannau yng Nghyfnod 2. Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Mae amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Bil yn pennu 6 Chwefror 2026 fel y dyddiad cau ar gyfer cwblhau Cyfnod 2.

Yna, byddai'r Bil yn destun rhagor o welliannau gan yr holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn y bleidlais derfynol ynghylch a ddylid pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4).